# Cenn@d

EBRILL 26 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 113


## Argraffiadau o Ŵyl Llanw, Llangrannog wedi'r Pasg

Ers 2008 mae ein teulu ni wedi bod yn diflannu am ychydig ddyddiau ar ôl y Pasg bob blwyddyn er mwyn ymuno yng Ngŵyl Llanw, lle bynnag y câi ei chynnal. Wedi toriad o rai blynyddoedd, fe fentrwyd cynnal gŵyl gyfan o ddydd Llun tan ddydd Iau eto eleni yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, lle bu'r gwyliau cyntaf hynny 15 mlynedd yn ôl. Dechreuodd yr ŵyl gyda thrigain o unigolion, ac yr oedd yn braf gweld croestoriad o Gristnogion Cymraeg o nifer o draddodiadau efo'i gilydd eleni a'r ŵyl erbyn hyn bum gwaith yn fwy na'r gyntaf o ran niferoedd. Yr oedd y tywydd yn enbyd, ond y gwmnïaeth yn felys a'r awyrgylch yn fendith i fod ynddo. Yr oedd yr amser yn gyforiog o gyfleon i addoli, gweddïo a dysgu, ac i'r teuluoedd gael ymuno yng ngweithgareddau'r gwersyll a threulio amser yn gwneud ffrindiau a chreu atgofion.

Gobeithio y bydd modd adrodd dros y misoedd nesaf am yr amrywiaeth o bynciau y cyffyrddwyd â nhw a'r gweithgaredd yr adroddwyd arno yn y seminarau a'r cyfarfodydd. Ond dyma argraffiadau dwy a deithiodd gryn bellter i fod yn rhan o'r ŵyl. Diolch iddyn nhw am rannu, a dwi'n falch iawn o'u cynnwys nhw isod. (Gol. HP-D)



Llawenydd oedd cael bod yn rhan o ddathliadau gŵyl Llanw yn Llangrannog eleni. Mor fendithiol oedd cael ymbellhau oddi wrth ofalon bywyd dyddiol i dawelu a threulio cyfnod yng nghwmni Cristnogion eraill yn addoli Duw. Roedd yno Gristnogion o bob oed, yn deuluoedd, cyplau ac unigolion mewn awyrgylch cariadus, cynhwysol. Arbennig o braf oedd clywed lleisiau plant a phobl ifanc yn y cefndir o bryd i'w gilydd yn ystod y cyfarfodydd, a'u gweld nhw a'u rhieni yn teimlo'n rhydd i fynd a dod yn ôl yr angen – peth bach, oedd yn fynegiant syml o gariad a gofal pawb am ei gilydd.

Profiad gwych oedd cael addoli ar gân gyda'r band a'r caneuon moliant cyfoes. Roeddwn yn teimlo llawenydd fel gwên fawr yn lapio amdanaf wrth ganu moliant i'r Arglwydd. Cawsom dystiolaeth gan nifer o unigolion yn rhannu am y pethau mae Duw yn ei wneud yn eu bywydau a'u cymunedau, ac roedd yn gymaint o galondid i glywed am bob un ohonyn nhw a gweddïo drostynt.

Roedd yr anerchiadau yn seiliedig ar y llythyr at y Colosiaid. Roeddynt yn gyfoethog o heriau cariadus i ddyfnhau ein perthynas efo Duw – gan gynnwys ein hannog i edifarhau am y pethau rydan ni'n eu gwneud i dristáu'r Ysbryd Glân; i beidio bod ofn gweddïo am wyrthiau; i fod ag angerdd hyd ddagrau dros fywyd ysbrydol ein gwlad.

Ond o'r holl ddarpariaeth, cyfarfod gweddi trydanol nos Fercher wnaeth fwyaf o argraff arna i – roedd yn drysor pur. Cawsom gyfnod o weddïo pwerus gydag eiriol angerddol dros ein cyflwr ysbrydol ni a'n gwlad na phrofais ei debyg o'r blaen. Yn ddiamau roedd yr Ysbryd Glân ar waith. Braint, braint oedd cael bod yno.

Rydw i'n rhoi diolch i Dduw am gael bod yn Llanw eleni yn ceisio ei wyneb, dyfnhau fy ffydd a mwynhau cymdeithas ei bobl.

*Gwenith Jones, Yr Wyddgrug*


*(parhad ar y dudalen nesaf)*



Gair yn ei bryd
Tudalen 3

Ffydd a Diwylliant
Cofio Tryweryn
Tudalen 4

Dydd y Farn 2023
Tudalen 7

*Argraffiadau o Ŵyl Llanw, Llangrannog wedi'r Pasg*
*(parhad o dudalen 1)*

Ces i wythnos arbennig o ddysgeidiaeth wych trwy'r Colosiaid, amser i ddal i fyny hefo ffrindiau ac i fwynhau bod yn Llangrannog. Fel rhywun ifanc, roedd yn wych cael cyfarfod hefo teulu Crist dros Gymru, i gael ein hannog a'n herio mewn sawl ffordd yn ein ffydd. Roedd yn gymaint o fendith i gael codi mawl cyfoes a llawn bywyd gyda'n gilydd.

Yn ystod y nosweithiau cafodd dŵr ei ddefnyddio i esbonio bywyd y Cristion, o gael ein llenwi gyda'r Ysbryd Glân yn ddyddiol, a dod at y Tad grasol a chariadus yn rheolaidd fel ein bod ni'n gorlifo gyda'i gariad. Yna, ar y noson olaf, y darlun o sut mae ein gweddïau ni mewn dagrau yn dangos i Dduw ein bod ni o ddifri. Ar y noson honno, digwyddodd rhywbeth dwi erioed wedi ei brofi o'r blaen. Roedden ni'n canu emynau traddodiadol ac yn galw ar yr Arglwydd am tua awr.



Ar y bore olaf dyma ni'n clywed am sut mae Duw ar waith dros y wlad a sut gallwn ni ymuno mewn gweddi a gwneud pethau ymarferol. Mae wir yn teimlo fel ein bod ni ar ddechrau cyfnod newydd yma yng Nghymru. Ac mae'n wych ein bod ni fel pobl ifanc yn gallu bod yn rhan fawr o rannu am wirionedd Iesu a gobaith y bedd gwag sy'n berthnasol i bawb. Gadawais yn gwybod ei fod Ef ar waith ac yn sicr y bydd e'n defnyddio pob unigolyn, dim ots pa mor fregus a thoredig, a thrwy ei nerth a'i gariad diddiwedd ef gallwn fynd yn ôl i'n prifysgolion yn gwybod ei fod Ef wrth ein hochr bob amser.

*Esyllt Roberts, Waunfawr*

**DS I weld y prif sesiynau eto, ewch i dudalen [grŵp Facebook Llanw](#) ac am ragor o wybodaeth am yr ŵyl, ewch i wefan [Llanw.org](#)**



Diolch i Hywel M. Davies am y lluniau

# Crefydd, Iaith a Hunaniaeth: Cynhadledd Er Cof am Walford Gealy

## Dydd Sadwrn, 13 Mai 2023 | 10:00–14:30
## Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth

Cynhadledd yw hon i goffáu'r athronydd blaenllaw Walford Gealy, a fu'n addysgu yn Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol Aberystwyth am ddegawdau. Graddiodd Walford o Adran Athroniaeth adnabyddus Coleg y Brifysgol Abertawe – 'The Swansea School' – a oedd yn drwm o dan ddylanwad yr athronydd o Awstriad Ludwig Wittgenstein. Roedd yn arddel syniadau am iaith a oedd yn bwysig yn ogystal i athronwyr eraill o'r Adran, megis cyfaill agos Walford, D. Z. Phillips, a'r Athro J. R. Jones.

Bydd y digwyddiad, **a gynhelir gan yr Urdd Athronyddol – Adran Athronyddol Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru,** yn cynnal sgyrsiau ar amrywiol themâu, gan roi sylw hefyd i yrfa Walford, a gyfrannodd gyhoeddiadau pwysig mewn sawl maes, gan gynnwys Athroniaeth Crefydd a Hanes Athroniaeth.

Rydym yn falch dros ben o allu gwahodd dau westai arbennig i'r digwyddiad. Bydd yr **Athro Mererid Hopwood** yn ymuno â ni ar gyfer lansiad swyddogol ei chyfrol *Dychmygu Iaith*, sy'n ymdrin â nifer o gwestiynau sylfaenol am iaith, gan gynnwys syniadau Wittgenstein a'i olynwyr.

Yn ogystal, bydd y **Parchedig Ganon Dr Matthew Hill** yn ymuno i drafod athroniaeth crefydd D. Z. Phillips, a oedd fel Walford wedi'i ysbrydoli gan Wittgenstein. Bydd aelodau'r Urdd **Dr Rhianwen Daniel** a **Dr Huw Williams** yn cyflwyno sgyrsiau ar gyfraniad Walford a'r Cymro arall o Ysgol Abertawe a fu'n ysbrydoliaeth i Gymdeithas yr Iaith drwy gydol y 60au, sef J. R. Jones.

Mae modd archebu lle ar gyfer y gynhadledd drwy glicio ar y ddolen hon: https://tocyn.cymru/en/event/83806b7c-5f1a-4873-b200-c0c4adc6fcbb.

Nid oes raid archebu tocyn ar gyfer y digwyddiad, ond gofynnwn ichi wneud hynny os yw'n bosib er mwyn inni sicrhau amcan o'r niferoedd er mwyn trefnu cinio, a fydd ar gael yn rhad ac am ddim.

# Gair yn ei bryd

## Rhannu gwên ac ysgwyd llaw



Llun gan Ave Calvar ar Unsplash https://unsplash.com/photos/JNwba6cv4e0

Oes gennych chi arwr? Na, nid y selébs enwog, gorbwysig hynny (weithiau), ond rhywun tawel diymhongar, na ŵyr neb amdanynt? Y bobol hynny na wnaeth ddim byd ond gwenu arnom ar yr amser iawn, amser o wewyr, efallai, neu bryder, neu brofedigaeth.

Mae gennyf arwr. John yw ei enw. Ia, enw cyffredin i ddyn cyffredin, ac erbyn hyn, ar ôl blynyddoedd maith, mae'n gwybod ei fod yn golygu'r byd i mi.

Pam, meddech chi? Ia, dyna fo – oherwydd ei wên gyntaf erioed i mi, 54 o flynyddoedd yn ôl. Dod atom ar y fferm yn Nhrefnant fu ei hanes, wedi imi golli fy nhad yn sydyn. Fe welaf ei wên rŵan, yr eiliad yma. Amser godro min nos oedd hi, a minnau newydd ddod adref o'r ysgol. Roedd yn codi rhwng dwy fuwch. Ar ôl bod yn gosod uned odro ar un ohonynt, cododd ei wyneb ac fe'm gwelodd am y tro cyntaf, a minnau yntau. Ddywedodd o yr un gair. Y cwbl wnaeth o oedd gwenu'n gynnes a chyfeillgar. Dim ffanfer, dim golau llachar a ffws mawr, dim ond y weithred fach hyfryd o wenu. Ac o'r eiliad honno ymlaen seliwyd ein cyfeillgarwch am byth!

Gweithred fach hardd arall yw ysgwyd llaw. Dyma weithred nad oes angen, ar gymaint o wahanol achlysuron, eiriau gyda hi. Dyma a welir gyntaf ar gae pêl-droed cyn i'r gêm ddechrau. Wrth gydymdeimlo, wrth groesawu, wrth longyfarch, wrth gymodi, wrth gyfarfod. Mewn llwyddiant, mewn unrhyw sefyllfa lle bydd pobol yn cwrdd.

Tybed oes yna ambell ysgydwad llaw y byddwn yn ei chofio am byth, rhai nad fedrwn byth eu hanghofio?

Mae gennyf dair yr hoffwn eu rhannu hefo chi os ca' i, gan ofyn am faddeuant am gyffyrddiadau personol.

### 1. Ysgwyd llaw wrth gydymdeimlo

Profiad anodd oedd mynd yn ôl i'r ysgol yn Ionawr '69 wedi'r brofedigaeth y soniais amdani uchod. Fe'i gwneid yn haws gan ymateb a chydymdeimlad ambell athro drwy ysgwyd llaw. Ond mae un ysgydwad llaw yn sefyll allan, a hynny gan un athro'n arbennig. Roedd rhai yn ei ofni. Petawn yn dweud ei lysenw byddech yn deall pam! Ar ddiwedd ei wers, dyma fo'n camu tuag ataf ac estyn ei law ataf, a minnau yn fy syndod yn gafael ynddi. Yr un fedrai fod yn gas yn troi'n gyfaill, un oedd yn demprus yn troi'n dyner, un oedd yn bell yn troi'n agos.

### 2. Ysgwyd llaw wrth longyfarch

Eleni mae'n 30 mlynedd ers i mi gael fy ordeinio'n weinidog yng Nghapel Mawr y Rhos. Noson lawn tensiwn ac emosiwn ydoedd i'r pedwar ohonom oedd yn cael ein hordeinio. Y capel yn llawn gyda'n teuluoedd a'n ffrindiau. Ar ddiwedd pob gwasanaeth ordeinio, bydd swyddogion y cyfundeb, ynghyd â'r rhai a ordeiniwyd, yn cerdded allan yn gyntaf. Ac wrth i mi gerdded i fyny'r eil, pwy oedd yn digwydd bod ar ben y rhes yn fy ymyl oedd fy mrawd, Eifion. A wyddoch chi be? Do, fe ysgydwodd fy llaw. Dyna un o eiliadau hapusaf fy mywyd!

### 3. Ysgwyd llaw wrth ffarwelio

Mae gwahaniaeth rhwng ffarwelio a dweud pnawn neu nos da. Rhywbeth dros dro yw hynny. Ond mae ffarwelio yn weithred lawer mwy terfynol a thrist. Mynd i edrych am gyfaill o weinidog wnes i a hynny i'r hosbis yn Llandudno. Roedd pawb, fel minnau, yn meddwl y byd ohono. Bu ei gymorth a'i ddoethineb i mi fel mymryn o weinidog digon dihyder ar gychwyn fy ngweinidogaeth yn werthfawr. Wedi mynd i mewn i'w ystafell, gwelais yn syth nad oedd yn dda. Eiliadau digon lletchwith a ddilynodd. Penderfynais na fedrwn aros yn hir. 'Wel, rwyf am fynd rŵan,' meddwn wrtho. A dyma fo'n estyn ei law i mi, a wyddoch chi nad anghofiaf byth ei chadernid, ei chryfder a'i chynhesrwydd. Roedd o'n gwybod, roedd y ddau ohonom yn gwybod, mai'r ffarwél olaf oedd hi'r diwrnod hwnnw, ac nid 'pnawn da'. Sut mae crynhoi pethau, gyfeillion ?

Adroddir am weinidog wedi colli ei wraig. Un nos Sadwrn dyma rai o'i gyn-aelodau'n mynd i edrych amdano i gydymdeimlo. Wedi noson ddymunol yn ei gwmni, fe ddaeth yn amser mynd adref. Wrth y drws, cyn dymuno'n dda i'w gilydd, dyma'r gweinidog yn dechrau beichio crio'n uchel ac yn ddi-baid. Y gŵr a'r wraig yn edrych ar ei gilydd, a 'run o'r ddau'n gwybod beth i'w wneud. Yn sydyn a dirybudd dyma'r wraig yn rhoi cusan ar foch y Parchedig mewn ymgais i'w helpu, ac fe weithiodd. Fe dawodd yr wylo ac fe sychodd y dagrau, ac fe fu eu hymadawiad yn hapusach wedyn.

Ar y ffordd adref roedd y wraig yn poeni beth fyddai ymateb ei gŵr i'r fath weithred wrth y drws. Ac fe fentrodd ofyn iddo. Dim ond dau air ddywedodd o: 'Gweithred brydferth' (ac mae'r geiriau hyn hefyd i'w gweld yn Marc 14:8 ).

Gyfeillion annwyl, aur yn ein bywydau – dyma'n union yw gweithredoedd bach o'r fath. Gwnawn nhw. Maen nhw mor hawdd! Mae yna unigolion yn ein cymdeithas unig ni sy'n edrych ac yn chwilio amdanynt am eu bod yn golygu cymaint iddynt, ac yn gwneud gwahaniaeth iddynt. Fedrwch chi ddim eu prynu yn Aldi, Tesco, Co-op na B&M. Yn ffatri ein calonnau maen nhw'n cael eu cynhyrchu, a chewch chi un man mwy diogel, mwy didwyll a dibynadwy na hynny! 'Gair yn ei bryd'– maen nhw'n eiriau rwyf wedi bod isio'u rhannu ers blynyddoedd, a diolch i chi am eich amser!

*Iorwerth P. Jones*
*Rhuthun*

(Ymddangosodd fersiwn o'r ysgrif hon yn *Y Bedol*, papur bro Rhuthun a'r cylch)

# Ffydd a Diwylliant




## Cofio Tryweryn

Mae yna bron i 60 mlynedd ers dechrau sôn am foddi Tryweryn a bron hanner can mlynedd ers yr agoriad swyddogol.

Mae Tryweryn a'r anogaeth i 'Gofio Tryweryn' yn rhan o'n hanes a'n chwedloniaeth ni bellach. Rydyn ni'n byw mewn cyfnod lle mae pobl yn dal, yn llythrennol, yn cofio Tryweryn ac mewn oes sydd wedi gallu cadw cof-nod o hanes y bennod honno a'i heffeithiau ar ein hoes ni.

Mae sawl un wedi crynhoi'r hanes a'r chwedloniaeth ac wedi dweud y stori wrth genhedlaeth arall. Y ddiweddaraf i wneud hynny ydy Betsan Powys yn ei phodlediad '*Drowned – the flooding of a village*' ar BBC Sounds. Cliciwch yma i wrando.

Mae'n gyfres wych, a gwaith Betsan yn sensitif, yn broffesiynol, ac yn ddiduedd. Mae gwrando ar lais cyfarwydd Betsan yn adrodd y stori yn Saesneg ynddo'i hun yn rhoi rhyw ddieithrwch i'r profiad o wrando. Ond mae ei hymchwil hi i – o leiaf – ddwy ochr y geiniog yn herio llawer iawn o'r rhagdybiaethau oedd gen i.

Sgwrsiodd gyda llawer o'r cymeriadau oedd wedi byw trwy'r hanes – rhai oedd yn lleisiau cyfarwydd, eraill nad oeddwn i wedi clywed eu tystiolaeth nhw o'r blaen. Cafodd bersbectif hanesydd o Lerpwl. Roedd o i'w weld yn deall bod y Cymry yn gweld y weithred fel un drahaus a sut roedd pethau wedi newid yn fyd-eang yn y 80 mlynedd rhwng boddi Efyrnwy a Thryweryn. Ond roedd o hefyd yn adrodd yn fyw iawn am yr amgylchiadau yr oedd pobl Lerpwl yn byw ynddyn nhw, yr ymdrechion i wella'u byd, a sut roedd dŵr o Dryweryn yn rhan allweddol o hynny. Dadleuodd yn ddigon credadwy mai carfan fechan boerodd ar brotestwyr y Cwm ar ddiwrnod yr orymdaith yn Lerpwl, ac mai diffyg dealltwriaeth a dihidrwydd oedd ymateb y mwyafrif.




Wrth gwrs, mae Betsan yn adrodd am y rhwygiadau lleol rhwng egwyddor a gwaith. Ac er nad yn gwbl ddieithr i mi, fe wnaeth y ffordd y mae Betsan yn dewis adrodd y stori hi'n glir i mi y gwahaniaeth oedd yna rhwng y tri arwr yr oeddwn i wedi fy magu yn sŵn eu henwau nhw a'r cenedlaetholwyr o'r Cymoedd oedd hyd braich o'r helynt, yn ddaearyddol ac yn ieithyddol, ac yn gweld pwysigrwydd yr egwyddor y tu hwnt i'r rhwygiadau lleol.

Mae Betsan yn symud yn llithrig o Dryweryn i'r Arwisgo yng Nghaernarfon, ac i'r ymgyrch losgi. Ac wrth i rywun heneiddio, mae rhywun yn sylweddoli pa mor agos mewn gwirionedd oedd y digwyddiadau hyn i'w gilydd.

Dwi wedi mwynhau cael fy atgoffa a fy herio gan yr hanes a'r chwedloniaeth. Mwynhau pellter ac agosrwydd yr hanes.

Ysgrifennwyd yr efengylau rhwng 36 a 67 mlynedd ar ôl marwolaeth Crist, pellter heddiw o foddi Tryweryn, mewn oes pan oedd hanes gwerin yn hanes llafar a'r cofnodion yn nwylo'r Ymerodraeth. Tybed sut fyddai Efengyl Betsan yn herio'n persbectif ni? Mae'r gwir rywle rhwng y gwahanol adroddiadau, rhwng y gwahanol agweddau, rywle rhwng yr hanes a'r chwedloniaeth, ac wrth ddarllen y dystiolaeth, efallai y dylem fabwysiadu sensitifrwydd ymchwilgar Betsan.

*Rocet Arwel Jones*

## Croesair y Pasg – atebion

**Ar draws** 7 Gwynfa 8 y groes 9 cawg 10 i gyhoeddi 11 Dydd Sul y 12 y corn 15 cysur 17 mawrygu 20 fy meiau i 22 ddod i 23 gawell a 24 dau ddyn
**I lawr** 1 cwch ar y 2 yn agosáu 3 Daniel a 4 lythyr 5 arno 6 weiddi'r 13 carodd Duw 14 cariad a 16 yn y cae 18 gadwyn 19 Sarah 21 Eden
**Gair cudd:** Cydlawenhawn

Diolch am yr 17 croesair cywir a gyrhaeddodd gelwrn y golygydd. Pleser yw cyhoeddi mai enw'r Parchg Geoffrey Eynon, Casblaidd, Sir Benfro, oedd yr enw cyntaf allan o'r celwrn. Llongyfarchiadau mawr iddo – bydd tocyn llyfr ar y ffordd yn y post yn fuan.

# Dathlu Bywyd a Chyfraniad Crefyddol yr Emynyddes o Gymru Anna Letitia Waring (1823–2023)

Mae yna ddechrau a diwedd i bob stori. Ac mae'r stori hon yn dechrau yng Nghymru ar 19 Ebrill 1823 gyda genedigaeth Anna Letitia Waring, Cymraes o Blas-y-felin, Castell-nedd, ac yn gorffen ar ei marwolaeth ym Mryste ar 10 Mai 1910.

Mae rhai dewisiadau mewn bywyd bron yn amhosib i'w gwneud. Yn aml, mae yna frwydr anodd a phersonol: hynny yw, mynd yn ôl ac ymlaen yn feddyliol am beth amser, newid eich meddwl wrth gwrs, mynd yn ôl ac ymlaen unwaith eto nes eich gadael fel petaech yn dioddef chwalfa emosiynol. Ond, am lawer o resymau gwahanol a chymhleth, nid yw'n bosib dweud, 'Iawn, dyna fo, y dewis wedi wneud!' Oherwydd, nes byddwch wedi gwneud eich dewis, mi fyddwch yn pendilio yn ôl ac ymlaen nes byddwch farw, neu hyd nes diddymir y dewis.


Dyma'n union ddigwyddodd i Anna Letitia Waring, merch ifanc o Gymru, pan ddaeth yna ddewis ger ei bron yn weddol gynnar yn ei hoes. Y dewis oedd mynd allan i'r byd llenyddol, cystadleuol a seciwlar, fel y gwnaeth ei thad, Elijah Waring, a'i hewythr, Samuel Waring, neu aros gartref yn ddiffwdan yn y byd crefyddol a chyfansoddi emynau ysbrydoledig a phytiau o farddoniaeth.

Roedd y dewis yn dda, ac aeth Anna ati i gyfansoddi a chyhoeddi llawer o emynau poblogaidd mewn cyfnod Fictoraidd, anodd, yn cynnwys 'In Heavenly Love Abiding'. Mae llawer o'r emynau hyn yn cael eu canu yr oes hon hefyd gan lawer o oedfaon ar y Sul drwy'r byd yn gyfan ac wedi ymddangos mewn llawer o lyfrau emynau gwahanol enwadau, fel *Caneuon Ffydd*, *Mission Praise*, *Songs of Faith*, *Christian Fellowship Songs* a chyhoeddiadau eraill.

Mae'r gyfrol 57 tudalen hon yn dathlu 200 mlynedd ers geni Anna Letitia Waring, ac wedi'i hysgrifennu'n syml gan yr awdur, gyda lluniau perthnasol, mewn ffordd hawdd ei darllen. Mae'n rhoi cefndir Anna, y Cristion swil, dihymongar o Gymru i'r darllenydd, ynghyd â braslun o'i chyfraniad crefyddol mewn oes anodd, pan nad oedd yn hawdd i ferched gystadlu a chyfansoddi'n grefyddol mewn byd oedd wedi'i reoli i raddau helaeth gan ddynion.

Roedd Anna a llawer o ferched tebyg yn oes Fictoria, fel Fanny Crosby, yn gallu gosod geiriau, teimladau a phrofiadau amlwg o'r byd benywaidd yn eu gwaith. Drwy fentro, a gwneud hyn yn eithaf llwyddianus, gallai Anna gynnwys ei phrofiadau personol yn sgil gwaith dyngarol yn ymweld â carcharorion mewn gwahanol garchardai.

Pwrpas y gyfrol hon, drwy ddathlu 200 mlynedd ers ei genedigaeth, yw creu ymwybyddiaeth o gyfraniad arbennig Anna Letitia Waring i'r byd crefyddol yng Nghymru. Dyhead




yr awdur yw gweld mwy o gyfansoddwyr Cristnogol fel Anna Waring, Plas-y-felin, ac Ann Griffiths, Dolwar Fechan, yn codi yn ein plith fel cenedl unwaith eto a chreu gobaith y bydd yna awch i ddarllen mwy amdanynt a'u cyfansoddiadau crefyddol amhrisiadwy.

Mae'r awdur, Owen Robert Morris, yn bregethwr lleol, yn aelod yng Nghapel Horeb, Bae Colwyn, ac yn byw ym Mhenmaen-mawr, Conwy. Ef yw sylfaenydd â chadeirydd presennol Grŵp Cristnogol Gofal Canser Ardal Conwy, sy'n cydweithio mewn partneriaeth â Chymorth Gofal Canser Macmillan Cymru.

Lansiwyd y gyfrol mewn cyfarfod arbennig o ddathlu nos Fercher, 19 Ebrill, yng Nghapel Bethel, Overlea Avenue, Deganwy, Conwy. Mae'r gyfrol, *Dathlu 200 Mlynedd o Enedigaeth Anna Letitia Waring*, ar gael drwy law Grŵp Cristnogol Gofal Canser Ardal Conwy. Cysylltwch ag: owen.r.morris@aol.co.uk.

*Morton J. Daniels*

## Gair o Gydymdeimlad

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth Mr Illtyd R. Lloyd, Y Tabernacl, Caerdydd. Roedd yn aelod anrhydeddus o Undeb Bedyddwyr Cymru ac wedi gwasanaethu fel Trysorydd a Llywydd yr Adran Gymraeg. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn eu galar a'u hiraeth. Cyhoeddir teyrnged iddo yn fuan.

## Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu

1953–2023


Cynhelir yr Ysgol Haf
yng Nghefn Lea, Dolfor
ger y Drenewydd

**22–5 Mai 2023**

Am fwy o fanylion cysyllter â:
nerysrowlands@ hotmail.co.uk neu 07759446825
Dyddiad cau: cyn 5 Mai

Croeso cynnes i bawb
Dowch i gael bendith, ac i wneud ffrindiau newydd

ADNABOD




Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 21 – Cyfamod: arwydd o waith ysbrydol

### (Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 12)

### Darllen: Genesis 17:9–14

Yr wythnos diwethaf roeddwn yn pwysleisio bod y cyfamod wnaed ag Abraham yn gyfamod sicr oherwydd bod ei awdur, Duw ei hun, yn addo bod yn Dduw i'w bobl. Mae adnod 8 yn gorffen â'r ymadrodd: 'a byddaf yn Dduw iddynt'. Gyda golwg ar y cwestiwn gyda phwy y mae Duw yn mynd i gyfamod, fe welwch o'r adnodau fod y pwyslais yma nid yn gymaint yn unigolyddol, hynny yw gydag Abraham, gyda 'ti', ond 'â thi, ac â'th ddisgynyddion ar dy ôl dros eu cenedlaethau'. Mae yna wedd unigol, ond mae yna bwyslais cyfun hefyd. Dyma'r Duw sy'n galw person a phobl i fod yn berson a phobl y cyfamod. Mae'n anodd ambell waith, mewn cenhedlaeth – yn wir, bellach, mewn sawl cenhedlaeth – sydd wedi rhoi pwyslais ar fy mhenderfyniad *i*, fy newis *i*, fy anghenion *i*, fy hunaniaeth *i*, medru gwerthfawrogi bod pwyslais y Beibl ar y bobl, y teulu cyfamodol. Fel gyda phob teulu, unigolion mewn perthynas ydynt, ac felly mae pobl neu deulu Duw. Trwy ras rydym yn cael ein geni yn unigolion i mewn i'r teulu yma, a phob un ohonom yn 'aelod' o'r corff hwnnw.

Yr wyf yn nodi hyn gan fod deall yr adnodau nesaf, a deall arwyddocâd y galwad i ddiogelu enwaediad y bechgyn, yn siarad am y ffordd y mae Duw yn ein gwahodd i ymrwymo ein hunain, ond hefyd i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn rhywbeth mwy na phenderfyniad personol: mae'n benderfyniad i gredu'r Duw sy'n ein gosod mewn teulu, y Duw sydd am weithio drwy ei deulu 'dros eu cenedlaethau'. Yr hyn sy'n cael ei orchymyn yma yw rhyw fath ar fathodyn, arwydd allanol i ddynodi bod y plant yn 'perthyn' i deulu arbennig, i bobl arbennig, pobl y cyfamod. Mae'r cyfamod wedi ei sefydlu ac yn cael ei ddiogelu drwy addewid y nef, a thrwy'r enwaediad mae yna gadarnhad o'r berthynas, cadarnhad gorfodol. Ond rhaid cadw mewn cof, o ran yr arwydd neu'r bathodyn yma, nad oedd yn warant y byddai'r sawl oedd yn ei dderbyn mewn perthynas gyfamodol bersonol â Duw. Does ond angen edrych ychydig adnodau ymhellach i weld bod hyn yn wir. Yn 17:25–7, mae Ismael yn derbyn arwydd yr enwaediad, ac yn Genesis 25 cawn hanes am Esau a Jacob yn cael eu geni. Rhaid fod Isaac wedi enwaedu Esau, er ein bod yn gwybod ei fod ef wedi gwerthu ei enedigaeth fraint am fowlennaid o gawl! Does ryfedd fod Paul yn dweud yn Rhufeiniaid 9, 'Oherwydd nid yw pawb sydd o linach Israel yn wir Israel. Ac ni ellir dweud bod pawb ohonynt, am eu bod yn ddisgynyddion Abraham, yn blant gwirioneddol iddo' (9:6–7). Yn gynharach yn yr un llythyr mae'n dweud: 'Nid Iddew mo'r Iddew sydd yn y golwg. Nid enwaediad chwaith mo'r enwaediad sydd yn y golwg yn y cnawd. Y gwir Iddew yw'r Iddew cuddiedig, a'r gwir enwaediad yw enwaediad y galon, peth ysbrydol, nid llythrennol. Dyma'r un sy'n cael clod, nid gan bobl eraill, ond gan Dduw' (2:28–9).

Er hyn, mae Abraham yn derbyn y gorchymyn i enwaedu, i wneud hynny ar yr wythfed dydd, 'boed wedi ei eni i'r teulu, neu'n ddieithryn heb fod yn un o'th ddisgynyddion, ond a brynwyd ag arian' (adn. 12). Mae'r arwydd yn un 'tragwyddol' ac mae unigolyn sy'n gwrthod enwaediad 'i'w dorri ymaith o blith ei bobl; y mae wedi torri fy nghyfamod' (adn. 14). Rwyf hefyd am dynnu eich sylw at agwedd 'tragwyddol' yr arwydd, rhywbeth sy'n cael ei bwysleisio yn adnod 13. Does ryfedd felly fod yna drafodaeth go sownd yn yr Eglwys Fore gyda golwg ar enwaediad, a beth ddylid ei wneud yn awr i ddangos bod pobl yn perthyn i deulu cyfamodol Duw. I grynhoi eu hymateb, mae'n debyg mai un o'r esiamplau gorau yw hanes tröedigaeth Cornelius yn Actau 10. Er bod hwnnw yn ŵr 'cyfiawn sy'n ofni Duw ac sydd â gair da iddo gan holl genedl yr Iddewon', eto yr oedd yn genedl-ddyn, ac yn un oedd angen cael ei herio gan yr efengyl. Yn ystod pregeth Pedr mae'r Ysbryd Glân yn syrthio gan arwain Cornelius a'r cenedl-ddynion eraill yn y lle i fawrygu Duw. Fel ymateb, mae Pedr yn dweud: '"A all unrhyw un wrthod y dŵr i fedyddio'r rhain, a hwythau wedi derbyn yr Ysbryd Glân fel ninnau?" A gorchmynnodd eu bedyddio hwy yn enw Iesu Grist' (Actau 10:47–8). Rwyf yn nodi hyn gan fod yr Apostolion wedi eu comisiynu gan Iesu, nid i enwaedu ond i fedyddio (Mathew 28:19), rhywbeth y mae Paul yn egluro, o ran perthynas y ddau arwydd yn Colosiaid 2:11–12 wrth sôn am y cyflawnder sydd i ni yn Iesu: 'Ynddo ef hefyd yr enwaedwyd arnoch ag enwaediad nad yw o waith llaw, ond yn hytrach o ddiosg y corff cnawdol; hwn yw enwaediad Crist. Claddwyd chwi gydag ef yn eich bedydd, ac yn y bedydd hefyd fe'ch cyfodwyd gydag ef drwy ffydd yn nerth Duw, yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw.'

Rydym ni'n deall bod yr arwydd yn un oedd yn edrych at enwaediad y galon, 'Yn awr, enwaedwch eich calonnau' (Deuteronomium 10:16); 'Ymenwaedwch i'r ARGLWYDD, symudwch flaengroen eich calon' (Jeremeia 4:4). Mae'r arwydd allanol 'cudd' yma'n pwyntio at y gwaith cudd y mae Duw am ei wneud ym mhob calon, y gwaith 'ysbrydol' yn Rhufeiniaid 2:29, oherwydd, 'Nid enwaediad sy'n cyfrif, na dienwaediad, ond creadigaeth newydd' (Galatiaid 6:15).

1. Sut fyddwch chi'n deall y berthynas rhwng bod yn blentyn unigol i Dduw a bod yn aelod o deulu cyfamodol Duw, ei Eglwys?
2. Yn hanes teulu Abraham, mae'n amlwg fod llawer wedi derbyn yr arwydd, y bathodyn, ond heb fynd ymlaen i gydnabod arglwyddiaeth Duw ar eu bywydau. Rhannwch â'ch gilydd y daith, naill ai o dderbyn yr arwydd (bedydd) i 'enwaediad y galon', neu o 'enwaediad y galon' i dderbyn yr arwydd (bedydd).
3. Roeddwn yn pregethu'n ddiweddar ar sut y dylem fyw ein bywyd teuluol gan ddangos gwynfyd perthynas ag Iesu, a realiti gweledig 'ffrwyth yr Ysbryd' yn ein bywydau i'n plant. Wrth edrych ar Mathew 5:1–12 a Galatiaid 5:22–5, sut mae byw bywyd sy'n gwneud yr efengyl yn apelgar i'n plant?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 30 Ebrill, am 7.30yh**
**Rhagflas o Eisteddfod yr Urdd, Sir Gâr**
Bydd Lisa Gwilym yn ymweld â Llanymddyfri wrth i'r dref baratoi i groesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cawn edrych ymlaen at gyffro'r ŵyl, ac edrych yn ôl ar rai o'r emynwyr mawr sydd wedi rhoi'r fro ar y map. Daw'r canu cynulleidfaol o Gapel Gellimanwydd, Rhydaman.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 30 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**
Rhaglen o emynau wedi'u perfformio gan Gantorion Glannau Teifi

**Sul, 30 Ebrill, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Christian Williams, Penclawdd

# Dydd y Farn 2023




Wrth ysgrifennu, mae'n anodd osgoi'r posteri a'r hysbysebu ar gyfer 'Dydd y Farn 2023', sef digwyddiad rygbi yn Stadiwm y Principality ar 22 Ebrill, gyda phedwar tîm rygbi proffesiynol Cymru yn cymryd rhan mewn dwy gêm yn dilyn ei gilydd. Dyma'r wythfed tro i'r digwyddiad gael ei gynnal ers 2013 (Collwyd tair blynedd oherwydd Covid-19).

Mae'n debyg mai'r rheswm am yr enw yw fod hon yn ornest i gloi'r tymor rygbi a gweld pwy yw'r goreuon yng Nghymru. Erbyn hyn, mae'n bur debyg fod pobl Cymru yn gwybod mwy am 'Ddydd y Farn' y rygbi nag am y Dydd Barn y mae'r Beibl yn sôn amdano. Mae'n wirionedd pwysig yn yr Ysgrythur ac yn allweddol i ddysgeidiaeth y Testament Newydd, ac felly'n eithriadol bwysig i bob Cristion wybod amdano, ac ymateb yn briodol i'r athrawiaeth.

## Pryd?

Er nad yw neb ond Duw y Tad yn gwybod y dyddiad (Mathew 24:36), fe fydd Dydd y Farn yn digwydd ar ddiwedd hanes, pan fydd yr Arglwydd Iesu Grist yn dod eto i'r byd fel Brenin a Barnwr.

## Pwy?

Ef fydd yn barnu'r byw a'r marw, a'r angylion syrthiedig, ac yn talu i ddynion yn ôl eu bywydau ar y ddaear. Caiff pawb marw eu codi o'u beddau (Ioan 5:28–9) a'u dwyn gebron Gorsedd Fawr Wen (Datguddiad 20.11–15) i'w barnu gan Grist (Actau 17:31).

Mae'r Hen Destament yn ein dysgu taw Duw yw barnwr cyfiawn yr holl ddaear, ac y mae unigolion a chenhedloedd yn atebol iddo (e.e. 1 Samuel 2:10). Fel arfer, fe ddaw'r 'Dydd' yna o gyfrif yn ystod cwrs hanes gyda goruchafiaeth filwrol, rhyw fath o felltith neu farwolaeth. Mae Daniel 7 a 12, serch hynny, yn cyfeirio at Farn gyffredinol mewn llys nefol, gyda'r rhai sy'n cysgu yn y ddaear yn codi – rhai i ogoniant a bywyd tragwyddol ac eraill i gywilydd a cholled dragwyddol.

Mae'r Arglwydd Iesu yn cyfeirio at y Farn yn Efengyl Mathew 11 o weithiau ac fe geir 13 o gyfeiriadau ati yng ngweddill y Testament Newydd.

Bydd pawb yn ymddangos gerbron yr Orsedd Fawr Wen, ond ni chaiff y sawl sydd â'i enw yn llyfr y bywyd (Llyfr Bywyd yr Oen) ei gondemnio. Dyma'r sawl sydd wedi ymddiried yn yr Arglwydd Iesu Grist, boed yng nghyfnod yr Hen Destament neu'r Newydd. Serch hynny, fe fydd y Cristion hefyd yn atebol am ei fywyd Cristnogol, ond nid i benderfynu ei dynged dragwyddol, ond pa wobr a gaiff.

## Pwyntiau pwysig

Mae ein holl fywyd yn agored gerbron ein Creawdwr hollwybodol (Pregethwr 12:14).

Mae ein bywyd ar y ddaear yn cyfrif, ac mae'n rhaid rhoi cyfrif amdano.

Does dim condemniad tragwyddol i'r sawl sy'n edifarhau am ei bechod ac yn ymddiried yn Iesu Grist fel Arglwydd a Gwaredwr (1 Thesaloniaid 1:10).

Rhaid i'r Cristion fod yn weithgar a gwyliadwrus wrth ddilyn a gwasanaethu'r Arglwydd a rhannu'r Efengyl, fel paratoad ar gyfer Dydd y Farn (1 Pedr 4:7; Hebreaid 10:24,25; 2 Corinthiaid 5:10,11).

Cawn addewid o goronau i'r sawl sydd wedi gwasanaethu'n ffyddlon, 'coron anllygradwy' am ddyfalbarhau drwy dreialon (1 Corinthiaid 9:24,25); coron cyfiawnder (2 Timotheus 4:8) am ymddiried yng Nghrist fel unig sail ein cyfiawnder; coron y bywyd, sef yr addewid o fywyd tragwyddol trwy Grist, i'r sawl sy'n dyfalbarhau drwy demtasiynau a phrofion bywyd (Iago 1:12).

Tyrrodd miloedd i Stadiwm y Principality ar 22 Ebrill, ac roedd miloedd mwy yn gwylio ar y teledu, ond bydd pawb yn bresennol yn Nydd y Farn ar ddiwedd hanes.

Boed i ni fod yn barod nawr drwy edifarhau a glynu mewn ffydd yn yr Arglwydd Iesu a fu farw dros ein pechodau ar y groes.

Boed i ni fyw yng ngoleuni gwirionedd Dydd y Farn. Boed i ni fod yn helaeth yng ngwaith yr Arglwydd, yn wyliadwrus rhag pechod, diogi a segurdod ysbrydol, a bod yn ddoeth fel y pum morwyn oedd yn barod ar gyfer dyfodiad y Priodfab.

*John Treharne*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## *Bugail a gwarchodwr eneidiau*

**Emyn 746 'Dilynaf fy mugail'**

**Salm 23**

### Gweddi

O Fugail da, yr hwn a roddaist dy fywyd dros dy braidd, caniatâ i ninnau glywed dy addewidion a rhodio ar hyd llwybrau cyfiawnder, er mwyn dy enw. Caniatâ i ni i lawenhau yn dy haelioni yng ngŵydd ein gwrthwynebwyr ac arwain ni i breswylio, yng nghwmni'r saint, yn nhŷ yr Arglwydd, yn oes oesoedd. Amen.

**Darlleniad 1 Pedr 1:18–25**

### Erlid

Heddiw, ar draws y byd, mae yna Gristnogion yn cael eu herlid: rhai mewn carchar, ymhell o'u teuluoedd; rhai'n cael eu harteithio am iddynt gredu bod Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd yr holl fyd; rhai hyd yn oed yn colli eu bywydau er mwyn eu tystiolaeth. Yn wreiddiol golygai *marturoi* 'un oedd yn dwyn tystiolaeth mewn llys barn'. Dros amser, mewn cylchoedd Cristnogol, daeth i olygu bod yn f*erthyr*, sef un a dystiodd i'r Arglwydd Iesu Grist hyd at angau.

### Gormes

Anodd i ni sy'n byw mewn cyd-destun gwladwriaeth seciwlar, sy'n mwynhau rhyw fesur o 'ddewis' democrataidd, yw dirnad beth yw amodau byw pobl sy'n byw dan ormes unbennaeth wleidyddol neu grefyddol, anoddefgar. Dychmygwch geisio byw bywyd Cristnogol yn Afghanistan, neu Iran, neu Ogledd Corea.

### Caethwasanaeth

Anodd hefyd i ni yw dychmygu byw mewn byd lle roedd y wladwriaeth ei hun yn dibynnu ar gaethwasanaeth. Yn Rhufain ei hun, er enghraifft, amcangyfrifid bod oddeutu 75% o'r boblogaeth yn gaethweision. Cymdeithas anghyfartal ydoedd, lle nad oedd gan drwch y boblogaeth unrhyw 'hawliau' o gwbl.

Nid ystyrid caethweision yn 'bersonau' go iawn. Nid eu heiddo eu hunain oedd eu cyrff. Eiddo eu perchnogion oeddynt; nwyddau oeddynt heb fod ganddynt na thras na theulu. Ni dderbynnid tystiolaeth caethwas mewn llys barn os nad oedd ei dystiolaeth wedi ei sicrhau trwy boenydio. Dibynnai hapusrwydd y caethwas ar fympwy ei feistr. Gwyddai unrhyw gaethwas a geisiai ddianc o afael ei feistr y byddai'n cael ei hela, ei ddychwelyd os câi ei ddal, ac y byddai cosbau llym yn ei aros pe na lwyddai i ddianc yn llwyr.

### Pos

O wybod hyn, pa gyngor fyddech chi'n ei roi i gynulliadau o Gristnogion ifanc yn y ffydd am sut i ymddwyn, sut i fyw eu bywydau, gerbron eu cyfoedion a gerbron eu 'perchnogion', gerbron rhai na fyddent o angenrheidrwydd ag unrhyw gydymdeimlad tuag atynt?

### Cyngor

Wrth ymgodymu â'r cwestiwn ymarferol hwn roedd Pedr, yn y lle cyntaf, am i'w ddarllenwyr wybod ei fod yn deall eu hamgylchiadau. Gwyddai fod rhai ohonynt eisoes yn cael eu niweidio oherwydd eu ffydd ac eisoes yn 'dioddef' (3:13, 17). Gwyddai fod rhai ohonynt yn 'dioddef sen' (3:9), sarhad (2:12) a blinder profiadau tanllyd (1:6). Pan ddeuai cernod, neu sen, neu falais i'w rhan ar gam, sut oeddynt i ymateb, sut oeddynt i ymagweddu?

### Disgwyliad

Nid yw Pedr (nac unrhyw un arall o awduron y Testament Newydd o ran hynny) yn cynnig unrhyw air o gydymdeimlad â'r eglwysi oedd yn wynebu erledigaeth neu wrthwynebiad. Yn wir, pan wynebodd Pedr a'r Apostolion eraill y fflangell am y tro cyntaf trwy law'r Sanhedrin, 'aethant hwythau ymaith … yn llawen am iddynt gael eu cyfrif yn deilwng i dderbyn amarch er mwyn yr enw' (Actau 5:41). Y disgwyliad oedd y byddai dioddefaint ac erledigaeth yn sicr o ddod i ran dilynwyr Iesu. I hyn yn wir y cawsent eu galw (2:21).

Nid oedd yr heriau na'r erledigaeth, yr ofnau na'r ansicrwydd a ddeuai i'w rhan wrth iddynt ddilyn Iesu i'w hatal rhag ei ganlyn, rhag 'gwneud daioni', na'r hyn oedd yn 'gymeradwy gan Dduw' (1 Pedr 2:20).

### Dygymod

Rhan o'r hyn fyddai'n 'gymeradwy' yn y rhai oedd yn proffesu ffydd yn Iesu Grist ac ymddiriedaeth yn Nuw (h.y. bod â'u 'meddylfryd ar Dduw') oedd eu bod yn dysgu 'dygymod' â 'blinderau' a 'dygymod a chael eich cernodio', er iddynt ddioddef ar gam (adn. 19).

Mae'n wir y daw amgylchiadau anodd i'n bywydau ninnau hefyd, amgylchiadau na allwn eu newid. Weithiau, y peth caletaf yw 'dygymod' â'r realiti a ddaeth i'n rhan er na cheisiem hynny.

### Y newyddion da

Yn ail, ceisiodd Pedr eu hatgoffa am yr efengyl a bregethwyd iddynt ac a gredwyd ganddynt. Dygodd Crist 'ein pechodau yn ei gorff ar y croesbren'. A chan gyfeirio at broffwydoliaeth o'r Ysgrythurau Iddewig, atgoffodd ei ddarllenwyr mai 'trwy ei archoll ef y cawsoch iachâd' (Eseia 53). Dyma'r Bugail da a roddodd ei einioes dros ei braidd gwasgaredig (Ioan 10). Trwy ymateb mewn ffydd i'w wahoddiad bywiol, trodd y rhai a fu gynt 'ar ddisberod' at 'Fugail a Gwarchodwr eich eneidiau'.

### Esiampl

Creodd y dröedigaeth yn eu cred chwyldro yn eu gwerthoedd a'u moesau. Cawsom ninnau hefyd ein galw, drwy'r efengyl, at Grist, 'er mwyn i ni ddarfod â'n pechodau a byw i gyfiawnder'. Nid 'prynwr' neu 'waredwr' yn unig mo Iesu, oherwydd 'dioddefodd Crist yntau er eich mwyn chwi, gan adael ichwi *esiampl*, ichwi ganlyn yn ôl ei draed ef' (adn. 21).

### Ymateb i gam

Awydd naturiol pob un ohonom, mae'n debyg, os daw cyhuddiad gwag neu faleisus i'n rhan, yw siomi neu ddigio, gan fwrw ati i amddiffyn ein hunain. Dysgodd Iesu ffordd wahanol i ni. Er iddo gael ei gamgyhuddo, ni fynnodd Iesu daro yn ôl na melltithio'r rhai oedd wedi ei glwyfo!

Bu Pedr ei hun yn llygad-dyst i'r modd yr ymatebodd Iesu i'r rhai oedd yn dwyn camdystiolaeth i'w erbyn, i'r rhai oedd yn ei guro, i weision Pilat wrth iddynt ei fflangellu, tuag at y milwyr oedd yn ei groeshoelio. Pan fyddai'n cael ei ddifenwi, ni fyddai'n difenwi'n ôl; pan fyddai'n dioddef, ni fyddai'n bygwth (adn. 23). Yn wir, gweddïodd am faddeuant i'r rhai oedd am ei ddifetha.

Cawn ninnau hefyd ein galw i ddilyn esiampl Iesu a chyflwyno ein hunain i'r Arglwydd ac ymddiried ein hachos iddo. Golygai 'ymddiried' yn Nuw ei fod yn caniatáu'r 'gofod' neu'r 'lle' (a defnyddio iaith bob dydd) i'r Arglwydd, 'i'r Un sy'n barnu'n gyfiawn' (adn. 23) weithredu'n gyfiawn ar ei ran.

Nid ein hamgylchiadau sydd i bennu ffiniau ein bywydau yng Nghrist ond ffydd fyw yn y Prynwr ac ymrwymiad llawen, yng nghwmni ein cyd-gredinwyr, i ddilyn ôl ei droed.

### Gweddi

Arglwydd, dysg ni heddiw beth yw ystyr dy ganlyn yn llawen, gan gredu ynot, a chan ddilyn patrwm ac esiampl dy fywyd. Amen.

**Emyn 541 'O Fab y dyn, eneiniog Duw'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru